



Canolfan Access Prifysgol Bangor


- ◆ **Pwy ydym ni?**
- ◆ **Beth yw Asesiad Anghenion Astudio?**
- ◆ **Beth allwn ni ei wneud i chi**
- ◆ **Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl**
- ◆ **Ydw i'n gymwys i dderbyn Lwfans Myfyrrwyr Anabl?**
- ◆ **Yr hyn y mae arnom ei angen gennyh chi**

Am ragor o wybodaeth:

Ffôn: 01248 388101

E-bost: canolfan_access@bangor.ac.uk

Mae'r daflen ar gael mewn gwahanol fformatau



◆ **Pwy ydym ni?**

Pan sefydlwyd y ganolfan, hon oedd y Ganolfan Asesu Anghenion gyntaf yng Nghymru. Hon yw'r unig Ganolfan Asesu ym Mhrifysgol Bangor ac oherwydd ein perthynas waith agos, mae gennym wybodaeth fanwl am gwricwlwm a chyfleusterau'r Brifysgol. Mae gennym hefyd gyfoeth o brofiad o ran y pecynnau cymorth sydd ar gael i fyfyrrwyr anabl ledled Gogledd a Chanolbarth Cymru a thu hwnt.

◆ **Beth yw Asesiad Anghenion Astudio?**

Cyfarfod cyfeillgar ac anffurfiol yw Asesiad Anghenion Astudio rhwng aseswr achrededig a'r myfyriwr. Yn ystod y cyfarfod byddwn yn edrych yn fanwl ar eich cwrs ac ar strategaethau a rhwystrau rhag dysgu sy'n gysylltiedig ag anabledd. Yn ystod yr Asesiad Anghenion Astudio bydd yr aseswr yn trafod opsiynau perthnasol o ran cefnogaeth, ac yn dangos technoleg gynorthwyol briodol (e.e. meddalwedd). Yna byddwn yn gallu gwneud argymhellion penodol a phwrpasol ynglŷn â'r hyn y gellir defnyddio'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl i'w ariannu. Cesglir yr holl wybodaeth i gynhyrchu Adroddiad Asesu Anghenion a gaiff ei anfon i'r corff ariannu ei ystyried.

Mae gan bob aseswr o leiaf chwe blynedd o brofiad o roi cefnogaeth gyda'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl, ac mae gan y rhan fwyaf o leiaf 10 mlynedd o brofiad.

◆ **Beth allwn ni ei wneud i chi**

Rydym yn cynnal Asesiadau Anghenion Astudio ar gyfer cael Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl ac yn cynhyrchu Adroddiad Asesu Anghenion.

Mae'r adroddiadau hyn yn fanwl ac yn cynnwys argymhellion ynglŷn â sut y gallai Lwfans i

Fyfyrrwyr Anabl ariannu cefnogaeth sy'n ymwneud ag anabledd.

Gall unrhyw un sy'n gymwys i gael Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl ddod i'n gweld i gael Asesiad Anghenion Astudio, ni waeth ble mae eich cwrs Addysg Uwch yn cael ei gynnis.

Os oes angen i chi deithio, gallwn eich helpu i adennill costau a gewch wrth ddod i'r apwyntiad.

◆ **Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl**

Grant yw'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl i helpu i dalu am y costau ychwanegol gall myfyrrwyr Addysg Uwch eu hwynebu oherwydd cyflwr iechyd parhaus neu gyflwr iechyd meddwl, nam corfforol neu synhwyrol, cyflwr y sbectwm awtistaidd, neu Wahaniaeth Dysgu Penodol megis dyslecsia.

◆ **Ydw i'n gymwys i dderbyn LMA?**

Y corff sy'n eich cyllido (e.e. Cyllid Myfyrrwyr Cymru / Student Finance England) sy'n penderfynu hyn. I wneud cais, bydd angen ichi lenwi ffurflen ac anfon gwybodaeth ddiagnostig atynt (e.e. llythyr doctor, neu Asesiad Diagnostig ôl-16 oed yn achos Anawsterau Dysgu Penodol). Yn y rhan fwyaf o achosion gall eich Darparwr Addysg Uwch eich helpu gyda'ch cais.

◆ **Yr hyn y mae arnom ei angen gennyh chi**

Cyn y medrwn eich gweld i gynnal Asesiad o Anghenion Astudio bydd arnom angen copi o'ch tystiolaeth ddiagnostig neu feddygol, a chopi o'r llythyr oddi wrth eich corff ariannu yn cadarnhau eich bod yn gymwys. Byddwn yn gofyn am y rhain wrth drefnu apwyntiad ar eich cyfer, y bydd arnom angen eu derbyn cyn y byddwn yn eich gweld.